# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD MEDI 2019

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 18fed o Fedi, 2019** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd, Bryn Hughes, Gwilym Lloyd Williams, Rhodri Dwyfor, Nerys Evans, Elin Evans, Jason Hunt, Huw Rowlands, Tom Ellis ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Thomas, Aeron M Jones a Peter Roberts. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Datganwyd buddiant gan BH ar bwynt 5(n) – Cwymp wal – afon Gwyled. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 17.07.19 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan BH ag eiliwyd gan MW. |
| **5.** | **Materion Misol** |
| | a) NE – Twll yn llwybr Bryngwyn<br>Esboniodd NE fod y ffens a'r pyst wedi gwaethygu erbyn hyn. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Chwmni Gwalch ac y byddent yn trefnu ymweliad safle gyda NE i drafod y mater.<br><br>b) AMJ - Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor<br>Penderfynwyd y byddai'r cynghorwyr yn darllen dros y polisïau ag yn rhoi eu sylwadau ag awgrymiadau arnynt erbyn y cyfarfod nesaf.<br><br>c) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023<br>Yn absenoldeb AMJ, penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>d) BH - Sefyllfa traffig o flaen Ysgol Rhostryfan<br>Eglurwyd fod pennaeth newydd wedi ei phenodi yn yr Ysgol a chan fod Gwyliau'r Haf wedi bod ni dderbyniwyd asesiad risg. Eglurodd BH y byddai'n fuddiol i ddisgwyl am dywydd garw, gan y byddai'r drafnidiaeth ar ei phrysuraf adeg honno. Cadarnhaodd NE y byddai'n cysylltu gyda Leusa, pennaeth newydd Ysgol Rhostryfan.<br><br>e) Problem Llygod – ardal Rhosgadfan<br>Nid oedd unrhyw gwynion i'w hadrodd mis yma.<br><br>f) NE – Dim gwastraff niwclear a gwrthod i ffracio<br>Awgrymodd NE mai defnyddio'r chwareli y byddent i waredu gwastraff niwclear. Cytunodd BH i gefnogi NE i wneud datganiad i wrthod hyn. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu datganiad clir i GG ar ran y Cyngor Cymuned eu bod yn gwrthod gwastraff niwclear a gwrthod ffracio. NE yn cynnig ac EE yn eilio.<br><br>g) BH - Bro Wyled toriad dwr / byrst datblygu'r beipen ddŵr<br>Nodwyd fod CCG + Dwr Cymru yn y broses o adnewyddu'r peipiau dwr, gan obeithio ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn.<br><br>h) AMJ – cais am festiau gweladwy ac offer codi sbwriel i'r cyngor<br>Nodwyd fod AMJ wedi cael festiau erbyn hyn.<br><br>i) RD + MW – cyflwr torri gwair yr ardal<br>Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda AMJ am ddiweddariad. |

| | |
|---|---|
| | j) JH – toriad gwair Llwybr Bryngwyn tuag at Randir Mwyn<br>Gwaith wedi ei gwblhau erbyn hyn.<br><br>k) Llwybrau cyhoeddus - Waun Bant a Chefn Fron<br>Waun Bant - Derbyniodd y Clerc alwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd yn cwyno am dresmasu. Penderfynodd y Cyngor i ofyn am gŵyn trwy lythyr neu e-bost er mwyn ymateb yn swyddogol iddo. Eglurodd y Clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad gyda'r contractwr torri gwair i gadw oddi ar y safle hyd nes bydd y llwybr wedi ei gofrestru'n swyddogol.<br><br>Cefn Fron – Derbyniodd y Clerc e-bost yn datgan bod car yn parhau i barcio ar y llwybr cyhoeddus hwn. Gofynnwyd i'r Clerc ail-gysylltu gyda'r Adran Llwybrau ynghylch a'r mater.<br><br>Bryngwyn – Tryfan Junction – nodwyd fod y llwybr yn cael ei olchi i ffwrdd ac yn ei gwneud yn anodd i drigolion ei gerdded. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r contractwr i dynnu lluniau a rhoi amcan bris ar gyfer ei atgyweirio.<br><br>l) Mynwent Cefnfaes<br>Holodd y Clerc am reolau claddu trigolion lleol a oedd bellach yn byw tu allan i'r ardal. Derbyniodd y Clerc eglurhad gan y cynghorwyr.<br><br>m) Ymweliad Arweinydd a Dirprwy Arweinydd CG – mis Hydref<br>Atgoffwyd y cynghorwyr bod Arweinydd a Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd yn ymweld â'r Cyngor yng nghyfarfod mis Hydref. Penderfynwyd y byddai'r cynghorwyr yn meddwl am gwestiynau ymlaen llaw a'i hanfon ymlaen i'r clerc.<br><br>n) BH - Cwymp wal gynnal i'r Afon Gwyled<br>BH yn datgan buddiant – Eiddo 11, Bro Wyled<br>Adroddodd BH ei fod yn codi'r mater er gwybodaeth ag i godi ymwybyddiaeth trigolion lleol eraill sydd gyda thir yn terfynu ag afon. Derbyniodd BH lythyr gan GG yn datgan mai ei gyfrifoldeb ef oedd atgyweirio cwymp yn wal afon Gwyled. Eglurodd BH bod wal ei dir ef yn terfynu cyn hynny. Nodwyd fod CG yn talu contractwyr i dorri coed ar hyd yr afon ond eto ddim yn cymryd cyfrifoldeb am atgyweirio'r wal. Gofynnwyd i'r Clerc cysylltu gyda CG i ofyn a oedd yr un rheol yn mynd i fod yn berthnasol i'r holl drigolion sydd gyda thir yn terfynu ag afon. |
| **6.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | a) Parc Cymunedol Rhosgadfan – ymateb Dion<br>Derbyniwyd ymateb gan Dion, nad oedd arian ar gael i drin ac adfywio'r Parc Cymunedol yn Rhosgadfan. Gofynnwyd i'r Clerc ei holi am ddiweddariad i'r holl waith sydd wedi ei gyflawni o dan y Prosiect Uwch Gwyrfai hyd yn hyn.<br><br>b) Archwiliad RoSPA<br>Esboniwyd bod archwiliad ar offer y caeau chwarae wedi ei logi yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>c) Ymweliad Llu Awyr Brenhinol Y Fali<br>Yn dilyn ymweliad i'r Llu Awyr Frenhinol, Y Fali, adroddodd RD bwrpas yr ymweliad. Nodwyd y rheswm bod yr awyrennau yn hedfan mor isel dros y tir, er mwyn rhoi profiad angenrheidiol i'r hyfforddeion, eglurwyd y byddai hyn yn gynllun parhaol ganddynt. |

| 7. | Materion Ariannol |
|---|---|

**Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar y 18fed o Fedi, 2019**

**1. Cyfrif Cadw**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (17.07.19) | 36,112.81 |
| + Praesept | 14,000.00 |
| + Llog | 18.18 |
| - Trosglwyddo £1500 i'r cyfrif cyfredol | - 1,500.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 18fed o Fedi, 2019** | **£48,630.99** |

**2. Cyfrif Siec**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (17.07.19) | **3786.41** |
| + trosglwyddo £1500 o'r cyfrif cadw | + 1500.00 |
| - 101433 Cyflog y Clerc - Gorffennaf 2019 | 465.20 |
| - Cyllid y Wlad – Gorffennaf 2019 | 105.80 |
| - 101434 Cyflog y Clerc – Awst 2019 | 465.40 |
| - Cyllid y Wlad – Awst 2019 | 105.60 |
| - 101436 Wyn Williams – Torri gwair | 1247.50 |
| - 101435 Whittens Computers – Cynnal Gwefan | 180.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 18fed o Fedi, 2019** | **£ 2716.91** |

**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 18fed o Fedi, 2019**

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc - Medi 2019 | 465.20 |
| Cyllid y Wlad – Medi 2019 | 105.80 |
| Wyn Williams – Torri gwair | 918.00 |
| A. Hughes-Jones, Dyson a'u Cwmni (payroll) | 204.00 |
| **Cyfanswm** | **£1693.00** |

a) Lwfans Cynghorwyr
Arwyddwyd ffurflenni gwrthod derbyn cyfraniad ariannol gan y rai oedd yn absennol yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

b) Cysoni'r banc i ddiwedd Awst 2019
Adroddwyd fod y banc yn balansio gyda'r cyfrifon i ddiwedd mis Awst.

c) Yswiriant
Nodwyd fod 10 x safle bws angen eu hyswirio, nid 8 fel oedd ar y daflen. Clerc i gysylltu gyda'r yswirwyr i'w ychwanegu.

| 8. | **Materion Cynllunio** |
|---|---|
| | 1. Cais C19/0800/24/LL – Codi estyniad deulawr ochr – Elgar, Bontnewydd, LL54 7YH<br>**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad**.<br>2. Cais C19/0825/24/CT – Torri coeden o fewn Ardal Gadwraeth – Tanronnen, Llanwnda, LL54 5SD<br>**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad**.<br>3. Cais C19/0853/24/LL – Estyniadau unllawr ochr a blaen – Fronhyfryd, Rhosgadfan, LL54 7EY<br>**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad**.<br>4. Cais C19/0850/24/LL – Estyniadau cefn – Islwyn, Rhostryfan, LL54 7LY<br>**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad**. |
| **9.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) Cynllun Lliniaru Llifogydd Rhostryfan<br>Cyfeiriwyd at ddyddiad y cyfarfod a gofynnwyd i'r Clerc ei roi ar agenda'r cyfarfod nesaf i atgoffa pawb. |
| **10.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | BH – Cynllun Lliniaru Llifogydd + Afon Gwyled<br><br>RD – Cattle grid – Rhosgadfan ger (Muriau) swnllyd – rwber yn rhydd<br><br>GW - Islwyn, Rhostryfan - grating wedi rhoi o gyfeiriad Pen Ceunant i sgwâr Bryn Melyn<br><br>TE – Polyn 30mph Llanwnda<br><br>BH – Toriad trydan – diffodd am eiliad / ddwy – cysylltu gyda SP Energy Networks<br><br>MW – Twmpath pridd top Rhosgadfan – cadw golwg arno<br><br>**Dyddiad: 16eg o Hydref, 2019**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN** |